



Gwarcheidiaeth Arbennig

Canllaw ar gyfer defnyddwyr y llys teulu

Ar gyfer pwy mae'r daflen hon?

Mae'r daflen hon ar gyfer unrhyw un sy'n ystyried gwneud cais am orchymyn gwarcheidiaeth arbennig.

Bydd y daflen hon yn esbonio:

- beth yw gwarcheidiaeth arbennig;
- pam mae'n wahanol i fabwysiadu;
- pwy gaiff wneud cais i fod yn warcheidwad arbennig; a
- sut i wneud y cais.

I gael cyngor ynghylch gwneud cais i fod yn warcheidwad arbennig, cysylltwch â'ch awdurdod lleol. Gallwch hefyd gael cyngor gan gyfreithiwr, canolfan cyngor ar bopeth neu ganolfan cyngor cyfreithiol.

Efallai y gallwch gael cyngor cyfreithiol yn rhad ac am ddim. Am ragor o wybodaeth, ewch ar-lein i www.gov.uk/legal-aid

Beth yw gwarcheidiaeth arbennig?

Mae gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig yn penodi un neu fwy o bobl i fod yn warcheidwaid arbennig i blentyn. Mae'r gorchymyn yn para nes bod y plentyn yn 18 oed (oni chaiff ei newid neu ei ganslo cyn hynny). Mae gan y gwarcheidwad arbennig gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn a chaiff wneud y mwyafrif o'r penderfyniadau ynghylch y plentyn (megis ble bydd y plentyn yn byw neu'n mynd i'r ysgol) heb orfod ymgynghori â neb arall. (Rydym yn esbonio beth yw cyfrifoldeb rhiant yn nhaflen '*CB1 Plant a'r llysoedd teulu*', sydd ar gael o swyddfa unrhyw lys teulu neu ar-lein yn hmctsformfinder.justice.gov.uk.) Ni chaiff y gwarcheidwad arbennig newid cyfenw'r plentyn na mynd ag ef neu hi dramor am fwy na thri mis heb gytundeb unrhyw un arall sydd â chyfrifoldeb rhiant neu ganiatâd y llys.

Pam mae'n wahanol i fabwysiadu?

Pan fo plentyn yn cael ei fabwysiadu, bydd yn dod yn rhan o'i deulu mabwysiadol 'newydd' a thorrir pob cyswllt cyfreithiol â'i deulu genedigol. Bydd y rhieni naturiol yn colli eu cyfrifoldeb rhiant ac ni ellir amrywio (newid) na rhyddhau (terfynu) y gorchymyn mabwysiadu, ac eithrio mewn sefyllfaoedd prin iawn. Efallai nad mabwysiadu yw'r ateb mwyaf addas bob amser ar gyfer rhai plant. O bosib oherwydd eu hoed neu gefndir diwylliannol, efallai na fyddant eisiau cael eu mabwysiadu, ond byddent yn elwa o gael lleoliad parhaol a chyfreithiol sicr gyda gofalydd tymor hir nad yw'n riant iddynt. Gall gwarcheidiaeth arbennig gwrdd â'r anghenion hyn. Yn wahanol i fabwysiadu, mae plant sy'n destun gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig yn cadw'u cysylltiad â'u teulu genedigol, er bod hawliau a chyfrifoldebau'r teulu wedi'u lleihau.

Pwy gaiff wneud cais i fod yn warcheidwad arbennig?

Gall y bobl ganlynol wneud cais i fod yn warcheidwad arbennig:

- Gwarcheidwad plentyn (rhywun a benodwyd i ofalu am y plentyn pan nad oes rhiant nac unigolyn arall â chyfrifoldeb rhiant. Gall cyfreithiwr neu ganolfan cyngor ar bopeth roi cyngor ynghylch a yw unigolyn yn warcheidwad i'r plentyn at bwrpas gwneud y cais.)
- Unigolyn y mae'r plentyn dan sylw yn byw gydag ef/hi oherwydd gorchymyn trefniadau plant dan adran 8 Deddf Plant 1989.
- Unigolyn y mae'r plentyn wedi byw gydag ef/hi am dair allan o'r pum mlynedd ddiwethaf.
- Unigolyn sydd wedi derbyn cytundeb unrhyw un y mae'r plentyn yn byw gydag ef/hi ac sydd â gorchymyn trefniadau plant ar gyfer y plentyn hwnnw.
- Unigolyn sydd wedi derbyn cytundeb yr awdurdod lleol os yw'r plentyn mewn gofal.
- Unigolyn sydd wedi derbyn cytundeb pob un sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.
- Rhiant maeth i awdurdod lleol neu berthynas y mae'r plentyn wedi bod yn byw gydag ef/hi am o leiaf blwyddyn cyn gwneud y cais.
- Unrhyw un sydd wedi cael caniatâd y llys i wneud y cais.

Rhaid i chi fod dros 18 mlwydd oed i wneud cais ac ni chewch fod yn rhiant i'r plentyn. Gallwch wneud cais ar y cyd (gyda mwy nag un unigolyn).

Gwneud eich trefniadau heb fynd i'r llys

Mae **cyfryngu teuluol** yn un ffordd o setlo gwahaniaethau yn ystod ac ar ôl gwahanu neu ysgaru. Bydd cyfryngwr hyfforddedig yn eich helpu chi a'ch cyn-bartner i gytuno ar drefniadau ar gyfer gofalu am eich plant. Mae cyfryngwr yn unigolyn annibynnol cymwysedig; ni fydd yn ochri â neb nac yn ceisio dod â chi'n ôl at eich gilydd.

Gall cyfryngu eich helpu chi a'ch cyn-bartner gyda'ch gilydd i gytuno ar drefniadau ar gyfer eich plant drwy siarad am bethau. Ni fydd cyfryngwr yn dweud wrthy'ch beth i'w wneud, ond gall eich helpu chi a'r rhiant arall i wneud penderfyniadau er pennaf les eich plant.

Gall cyfryngu teuluol fod yn gyflymach, yn rhatach ac yn haws na straen mynd i'r llys.

Bydd y llys yn gofyn eich bod naill ai wedi bod i gyfarfod i gael gwybodaeth am gyfryngu ac asesiad (MIAM), neu'n gallu dangos pam nad oes rhaid i chi fynd i gyfarfod, cyn gwneud cais am orchymyn llys. Os ydych yn gymwys, gallwch gael cymorth cyfreithiol ar gyfer y MIAM ac ar gyfer unrhyw sesiynau cyfryngu teuluol y penderfynwch gymryd rhan ynddynt. Os yw o leiaf un rhiant yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol ar gyfer cyfryngu, bydd yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn talu am y MIAM ar gyfer y ddau riant (ond ar gyfer y rhiant cymwys yn unig y bydd yn talu am sesiynau cyfryngu). Am ragor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/looking-after-children-divorce

Os gwnewch gais am orchymyn llys, bydd y llys yn gofyn eich bod wedi bod i gyfarfod i gael gwybodaeth am gyfryngu ac asesiad yn gyntaf, i ystyried gyda'r cyfryngwr a'r rhiant arall a fyddai cyfryngu'n ffordd addas o setlo'r anghydfod. Bydd y llys hefyd yn gofyn bod eich cyn-bartner yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw os yw'r cyfryngwr wedi gofyn iddo/iddi fod yno. Gallwch chi neu'r rhiant arall ofyn am gael gweld y cyfryngwr ar wahân pe bai'n well genny'ch wneud hyn.

Beth sy'n digwydd mewn sesiwn cyfryngu? Bydd cyfryngwr hyfforddedig yn eich helpu chi a'r unigolyn arall i siarad am y pethau na allwch gytuno arnynt. Bydd y cyfryngwr yn eich helpu chi'ch dau i weld a oes unrhyw ffordd y gallech gytuno â'ch gilydd. Nid yw pob achos yn addas ar gyfer cyfryngu, yn enwedig os bu trais yn y berthynas neu os oes pryderon difrifol eraill am les. Gall y cyfryngwr eich helpu i benderfynu a yw eich amgylchiadau'n addas ar gyfer cyfryngu, ac ni fydd yn dechrau cyfryngu os nad yw'n meddwl bod hynny'n briodol. Fel rheol, bydd unrhyw beth y siaradwch amdano mewn sesiwn cyfryngu'n aros yn breifat ac ni chaiff y llys wybod amdano, oni chaiff materion eu codi sy'n ymwneud ag amddiffyn plant neu droseddau honedig.

Mae ffi am gyfryngu, ond mae'n bosibl y gallwch gael cymorth cyfreithiol i helpu i dalu amdano. Am ragor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/legal-aid

Os penderfynwch ar ôl hyn eich bod am fynd i'r llys beth bynnag, bydd angen i chi lenwi ffurflen *FM1* i ddangos eich bod wedi ystyried cyfryngu. Os nad oes rhaid i chi ystyried cyfryngu, bydd angen i chi neu'ch cyfreithiwr (os oes gennych un) lofnodi Rhan 1. Efallai y bydd angen i chi roi tystiolaeth i ddangos pam nad oes rhaid i chi ystyried cyfryngu; eglurir hyn ar y ffurflen. Os ydych wedi cael cyfarfod i gael gwybodaeth am gyfryngu ac asesiad, bydd angen i chi a'r cyfryngwr lofnodi Rhan 2 y ffurflen. Dylech chi a'r cyfryngwr hefyd lofnodi'r ffurflen os nad ydych wedi cael cyfarfod cyfryngu gan fod y cyfryngwr wedi cytuno nad oedd eich achos yn addas ar gyfer cyfryngu.

Gallwch gael ffurflen *FM1* gan y llys neu drwy ddefnyddio ein hadnodd chwilio am ffurflenni ar-lein yn hmcts.courtfinder.justice.gov.uk/HMCTS/FormFinder.do

I ddod o hyd i'r cyfryngwr teuluol agosaf atoch, gallwch fynd i: www.familymediationhelpline.co.uk/find-service.php

A oes pethau y mae'n rhaid i mi eu gwneud cyn i mi wneud cais?

Dri mis cyn i chi wneud y cais, rhaid i chi ddweud wrth yr awdurdod lleol eich bod yn bwriadu gwneud cais. Os yw'r plentyn yng ngofal awdurdod lleol, neu'n derbyn gofal ganddynt, rhaid i chi ddweud wrth yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn. Fel arall, dylid dweud wrth yr awdurdod lleol lle'r ydych yn byw.

Rhaid i'r awdurdod lleol ysgrifennu adroddiad i'r llys i'w gynorthwyo i benderfynu pa orchymyn i'w wneud. Ni all y llys wneud y gorchymyn heb yr adroddiad hwn.

Beth fydd arna'i ei angen i wneud cais?

Bydd arnoch angen ffurflen *C1* (neu ffurflen *C2* os ydych yn gofyn am ganiatâd i wneud y cais, neu'n gwneud y cais mewn achos sy'n bodoli eisoes ynghylch y plentyn) a ffurflen *C13A*, sydd ar gael o unrhyw lys teulu neu ar-lein yn hmcts.formfinder.justice.gov.uk.

A fydd rhaid i mi dalu ffi?

Mae'n bosib y bydd rhaid i chi dalu ffi i'r llys. Am ragor o wybodaeth am ffioedd llys, cyfeiriwch at y llyfryn *EX50 - Ffioedd Llys Sifil a Llys Teulu*. Mae'r llyfryn hwn ar gael o swyddfa unrhyw lys teulu, neu oddi ar ein gwefan: hmcts.formfinder.justice.gov.uk.

Efallai y bydd eich sefyllfa ariannol yn golygu na fydd rhaid i chi dalu ffi i'r llys, er enghraifft, os ydych yn derbyn math arbennig o fudd-dal sy'n seiliedig ar brawf modd neu y byddech yn dioddef caledi ariannol pe byddech yn talu'r ffi. Mae'r llyfryn a'r ffurflen gais cyfunol, sef *EX160A Ffioedd Llys a Thribiwnlys - Oes rhaid i mi eu talu?* yn rhoi rhagor o wybodaeth. Mae ar gael o swyddfa unrhyw lys teulu neu ar-lein yn hmcts.formfinder.justice.gov.uk.

Ble mae cychwyn fy nghais?

Dylech wneud eich cais i'r llys teulu agosaf atoch sy'n delio â materion plant.

Gallwch ddod o hyd i'r rhestr lawn o lysoedd, a gwybodaeth ynghylch y math o waith y maent yn ei wneud, ar-lein yn courttribunalfinder.service.gov.uk.

Beth ddylwn i ei wneud pan fo'r cais wedi'i gychwyn?

Pan fydd y llys wedi cychwyn eich cais, cewch rif achos a phennir dyddiad ar gyfer gwrandawriad cyfarwyddo cyntaf (gweler isod). Bydd angen i chi anfon copïau o'ch ffurflen gais a manylion am ddyddiad y gwrandawriad cyfarwyddo cyntaf i'r bobl eraill yn yr achos. Gelwir hyn yn 'gyflwyno'r ffurflenni' ac fe welwch wybodaeth am hyn yn nhaflen 'CB3 - Cyflwyno'r ffurflenni - Deddf Plant 1989', sydd ar gael o swyddfa unrhyw lys teulu neu ar-lein yn hmctsformfinder.justice.gov.uk.

Yr 'atebwyr' i'r cais (y bobl y mae'n rhaid i chi ddweud wrthynt) fydd:

- pob un y credwch chi sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn;
- os oes gorchymyn gofal mewn grym, pob un y credwch chi oedd â chyfrifoldeb rhiant cyn i'r gorchymyn gofal gael ei wneud; ac
- os oes gorchymyn gofal mewn grym, bydd y llys yn penodi gwarcheidwad plant i gynrychioli'r plentyn yn yr achosion hyn, a bydd angen i'r unigolyn sy'n gwneud y cais anfon y dogfennau at y gwarcheidwad hwn.

Dyma'r bobl eraill y bydd rhaid i chi ddweud wrthynt:

- adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol os yw'r plentyn mewn llety awdurdod lleol;
- os nad yw'r plentyn mewn llety awdurdod lleol, adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol lle'r ydych yn byw;
- pawb sy'n gofalu am y plentyn;
- yr unigolyn sy'n darparu'r cartref y mae'r plentyn yn aros ynddo os yw'r cartref yn gartref plant cofrestredig neu'n gartref gwirfoddol, a'i fod yn lloches;
- pawb y mae'r plentyn wedi byw gyda nhw am o leiaf dair blynedd cyn y cais;
- os oes gorchymyn llys mewn grym sy'n ymwneud â'r plentyn ac y gallai eich cais effeithio arno, dylech hysbysu pawb a enwir yn y gorchymyn hwnnw; ac
- os oes achos llys yn ymwneud â'r plentyn eisoes yn digwydd ac y gallai eich cais effeithio arno, dylech hysbysu pob parti yn yr achos hwnnw.

Alla' i gadw fy manylion yn gyfrinachol?

Os nad ydych yn dymuno rhoi eich cyfeiriad i rieni neu warcheidwaid y plentyn yr ydych eisiau dod yn warcheidwad arbennig iddo, gallwch beidio â'i roi ar y furflen. Yn lle hynny, dylech roi'r manylion hyn ar ffurflen C8 y dylech ei rhoi ynghlwm â'ch cais. Bydd staff y llys wedyn yn cadw manylion eich cyfeiriad yn breifat ac ni fyddant yn eu rhoi i neb heb ganiatâd y llys.

Gallwch gael copi o ffurflen C8 o unrhyw lys teulu neu oddi ar ein gwefan yn hmctsformfinder.justice.gov.uk.

Pan fydd adroddiad yr awdurdod lleol yn cael ei ffeilio yn y llys, bydd y llys yn ystyried a fydd ar gael i bob unigolyn sydd ynghlwm â'r achos ai peidio. Cyn penderfynu, bydd y llys yn ystyried a ddylid dileu unrhyw wybodaeth, gan gynnwys unrhyw wybodaeth sy'n datgelu cyfeiriadau neu wybodaeth gyfrinachol. Hefyd, gall y llys gyfarwyddo i beidio â rhoi'r adroddiad i unigolyn penodol sydd ynghlwm â'r achos.

Beth yw gwrandawriad cyfarwyddo cyntaf?

Apwyntiad lle bydd y llys yn ystyried yr achos ac yn gwneud penderfyniadau (cyfarwyddiadau) ynghylch sut y dylai'r cais fynd rhagddo yw gwrandawriad cyfarwyddo cyntaf. Gall hyn gynnwys:

- penderfynu ynghylch amserlenni ar gyfer ffeilio adroddiadau a thystiolaeth;
- a ddylai'r plentyn gymryd rhan mewn gwrandawriadau yn y dyfodol;
- manteision defnyddio cyfryngu neu ddulliau eraill o ddatrys anghydfod;
- a ddylid trosglwyddo'r achos i lys uwch;
- a oes angen gwrandawriad cyfarwyddo pellach; ac
- os yw'n bosibl, dyddiad a lleoliad y gwrandawriad terfynol.

Bydd y llys yn anfon copi o'r gorchymyn yn esbonio pa gyfarwyddiadau a wnaethpwyd ganddynt atoch chi neu eich cyfreithiwr, os oes gennych chi un. Oni bai fod y llys yn eich esgusodi, bydd angen i chi fynd i unrhyw wrandawriad. Os na allwch fod yn bresennol, bydd angen i chi siarad â swyddfa'r llys.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Pan fydd pob un o'r cyfarwyddiadau a wnaed gan y llys wedi'u gweithredu, gall yr achos symud ymlaen i wrandawriad terfynol. Yn y gwrandawriad hwn, bydd y llys yn penderfynu a yw am wneud y gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig ai peidio, ar ôl darllen pob adroddiad a datganiad a gwrandawriad dystiolaeth gan bawb sy'n ymwneud â'r achos ac unrhyw dystion eraill. Bydd y llys yn anfon copi o'r gorchymyn terfynol at bawb sy'n ymwneud â'r achos.